# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Creigiau**

**Neuadd y Sgowtiaid**
**Castle Close**
**Creigiau**
**Caerdydd**
**CF15 9NJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Cylch Meithrin Creigiau

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Pwyllgor Cylch Meithrin Creigiau |
| Lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Tachwedd 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau addas ac yn ymroi i chwarae a dysgu. Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn mynegi mwynhad. Maent yn dechrau gwneud ffrindiau ac yn dod yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

Mae'r staff yn broffesiynol, yn gymwysedig ac yn mwynhau eu gwaith. Maent yn garedig, yn ofalgar ac yn rhyngweithio'n dda â'r plant. Maent yn rhoi sylw i anghenion y plant ac yn parchu'r plant yn eu gofal.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn addas ar gyfer y plant sy'n mynychu. Maent yn cofrestru'r plant a'r ymwelwyr yn briodol.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn anghyson yn y lleoliad, ac mae angen sylw ar sawl maes er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd. Cyhoeddwyd un hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth a nodwyd dau faes i'w gwella. Mae'r unigolyn cyfrifol yn awyddus i wneud gwelliannau ac wedi dweud wrthym y bydd yn ymdrin â'r materion a godwyd fel mater o flaenoriaeth.

| **Llesiant** | **Digonol** |
|---|---|

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau addas am sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad ac yn dewis yn rhydd rhwng gweithgareddau dan arweiniad oedolion a gweithgareddau annibynnol. Gwelsom y plant yn symud yn hwylus rhwng y gweithgareddau, yr adnoddau a'r teganau sydd ar gael iddynt. Mae'r plant yn aml yn cyfathrebu'n hyderus gan fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion, ar y cyfan, yn cael eu hystyried. Er enghraifft, gwelsom blentyn yn gofyn i aelod o'r staff am gymorth i adeiladu tŵr yn yr ardal adeiladu yn yr awyr agored.

Mae’r plant yn hapus ac wedi setlo yn y lleoliad. Maent yn adnabod y staff yn dda ac yn mynd atynt i gael cyfarwyddyd a chysur. Maent yn ymdopi wrth gael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr ac mae'n amlwg eu bod yn hoff iawn o'r staff gofal. Er enghraifft, gwelsom y plant yn cael maldod er mwyn rhoi cysur iddynt pan oeddent am gael hynny neu ei angen. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd. Er enghraifft, mae llawer o'r plant yn gwybod y dylent fynd i gasglu eu cotiau pan fydd yn amser mynd allan i'r awyr agored a gwelsom nhw yn aros yn amyneddgar i fynd allan heb orfod cael llawer o anogaeth gan y staff. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd unrhyw arddangosiadau o waith y plant.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a gyda'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Maent yn gwneud ffrindiau yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Mae'r plant yn hapus gyda'i gilydd neu ochr yn ochr â'i gilydd. Er enghraifft, roedd grŵp o blant wedi ymgolli mewn chwarae gyda cheir bach a ramp am gyfnod estynedig o amser. Mae'r plant yn dechrau cydweithio gyda'i gilydd ac yn gallu aros eu tro. Gwelsom y plant yn cymryd eu tro wrth chwarae â cherbydau yn yr ardal awyr agored, â chymorth.

Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau a gaiff eu cynnig. Maent yn rhydd i archwilio'r amgylchedd dan do a threulio amser ar weithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Er enghraifft, gwelsom y plant yn mwynhau newid cewynnau doliau. Hefyd gwelsom y plant yn awyddus i chwarae â'r beiciau a'r ceir sydd ar gael yn yr ardal awyr agored. Mae'r plant yn canolbwyntio am gyfnodau priodol o amser yn ystod gweithgareddau megis chwarae dychmygus, gemau ac amser cylch. Mae'r plant yn awyddus i ddangos i'r oedolion beth maent yn ei ddysgu. Er enghraifft, gwelsom blentyn yn dangos hufen iâ dychmygol yr roedd wedi ei greu mewn cart hufen iâ tegan.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd addas i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth ac yn cael cymorth os oes angen. Er enghraifft, gwelsom y plant yn gwisgo eu cotiau a'u hesgidiau glaw i fynd allan i'r awyr agored a chael cymorth gan y staff â'u menig. Mae'r plant yn dechrau bod yn annibynnol wrth fynd i'r toiled a golchi eu dwylo. Fodd bynnag, mae angen meithrin sgiliau annibyniaeth y plant yn ystod amser byrbryd.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae gan y staff ddealltwriaeth addas o'u rolau a'u cyfrifoldebau yn y lleoliad. Maent yn gymwys i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant ac maent yn ymwybodol o bolisi diogelu'r lleoliad a'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd ganddynt bryderon am blentyn. Mae gan y staff ddealltwriaeth o anghenion iechyd y plant, gan gynnwys alergeddau a gofynion deietegol. Caiff damweiniau a digwyddiadau eu cofnodi'n briodol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid ydynt yn gwerthuso damweiniau a digwyddiadau er mwyn nodi unrhyw batrymau. Ar hyn o bryd, nid oes proses ffurfiol i gofnodi anafiadau sy'n bodoli eisoes pan fydd rhieni yn rhoi gwybod am ddamweiniau y tu allan i'r lleoliad. Mae'r staff yn dilyn proses hylendid wrth baratoi ar gyfer amser byrbryd. Er enghraifft, maent yn glanhau'r byrddau ac mae'r plant yn golchi eu dwylo. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym nad oedd y lleoliad wedi'i gofrestru ag adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Caerdydd fel gwasanaeth sy'n darparu bwyd. Ers yr arolygiad, mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi rhoi sicrwydd i ni ei bod wedi cymryd camau i gofrestru ag adran Iechyd yr Amgylchedd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwirio tymheredd y lleoliad bob dydd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei gofnodi'n ffurfiol.

Mae'r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gefnogi a hyrwyddo ymddygiad cymdeithasol y plant, gan ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn dangos esiampl gadarnhaol i'r plant yn eu gofal drwy eu trin nhw a'i gilydd â gofal, parch a charedigrwydd. Mae'r staff yn deall ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Maent yn darparu gofal a chynhesrwydd i'r plant pan fydd eu hangen arnynt. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Er enghraifft, gwelsom y staff yn eistedd gyda'r plant ac yn cymryd rhan mewn gweithgaredd i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen.

Mae'r staff yn darparu amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu, gan ystyried diddordebau'r plant. Maent yn cefnogi dewisiadau'r plant, gan ganiatáu iddynt gael cyfleoedd i archwilio dan do a dilyn eu diddordebau eu hunain. Fodd bynnag, nid oes cofnod o gynllunio ffurfiol na chofnod o'r arsylwadau a'r gwaith o fonitro cyflawniadau datblygu'r plant a'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn y lleoliad yn gyson ac mae'r plant yn gallu deall gorchmynion a chwestiynau syml yn Gymraeg. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas yn cael eu datblygu drwy ddathlu gwyliau o wahanol ddiwylliannau yn ogystal â'u rhai eu hunain. Er enghraifft, gwelsom enghreifftiau o'r plant yn dathlu Diwali, Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, y Nadolig a'r Pasg.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae'r safle yn gynnes, yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r fynedfa yn ddiogel ac mae'r drysau wedi'u cloi, sy'n sicrhau mai dim ond aelodau o'r tîm rheoli all ganiatáu i bobl ddod i mewn. Mae'r ymwelwyr yn llofnodi i mewn ac allan o'r adeilad. Caiff presenoldeb y plant ei gofnodi ag union amseroedd cyrraedd a gadael y plant. Mae gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar gyfer yr adeilad a theclynnau, ac mae tystysgrifau diogelwch priodol ar gael. Mae'r staff yn paratoi'r lleoliad ac yn rhoi'r adnoddau i gadw bob dydd, gan fod y safle yn cael ei rannu â grwpiau lleol. Mae'r arweinwyr yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd sy'n sicrhau bod y staff a'r plant yn gyfarwydd â'r weithdrefn ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn gyfeillgar i blant. Mae'n cynnig ardal olau, dawel i'r plant sy'n darparu digon o le ar gyfer gweithgareddau priodol. Mae digon o doiledau a sinciau sy'n addas ar gyfer oedran y plant, ac sy'n cynnal eu preifatrwydd a'u hurddas. Mae cyfleusterau newid cewynnau priodol ar gael hefyd. Ceir ardal awyr agored sy'n cynnig cyfle i'r plant gael profiadau chwarae yn yr awyr agored, gan roi awyr iach llesol iddynt. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu ardal chwarae'r plant yn ardaloedd chwarae penodol, amlwg.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd da, yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r byrddau a'r cadeiriau o faint sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y gall y plant fynd at yr adnoddau yn hawdd, gan hyrwyddo eu hannibyniaeth. Mae'r rhain yn briodol i oedran a cham datblygu'r plant ac yn hyrwyddo eu chwilfrydedd a'u dysgu. Mae'r arweinwyr hefyd yn darparu llyfrau a theganau amlddiwylliannol i'r plant sy'n briodol ar gyfer eu hoedran. Gwelsom y plant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd crefft i baratoi at Ddiwrnod Santes Dwynwen.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Gwael

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn anghyson. Mae angen gwella'r gwaith papur a'r gwiriadau cyn cyflogi. Roedd hyn oherwydd, yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym nad oedd gan yr unigolyn cyfrifol unrhyw asesiadau risg ar waith ar gyfer y lleoliad, y gweithgareddau a'r adnoddau. Yn ystod yr arolygiad, nododd yr arolygwyr risgiau posibl yn yr amgylchedd nad oeddent wedi'u hystyried gan yr unigolyn cyfrifol. Ni all Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fod yn sicr bod yr unigolyn cyfrifol yn adolygu'r risgiau yn effeithiol. Gallai hyn gael effaith ar ddiogelwch a llesiant y plant ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff mewn ffordd addas. Maent yn cynnal gwiriadau er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Nid oedd y sampl o ffeiliau'r staff a welsom yn ystod yr arolygiad yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Nid oedd rhai o'r ffeiliau y gwnaethom eu samplu'n cynnwys gwybodaeth reoleiddiol megis geirdaon a datganiadau iechyd. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Yn ystod yr arolygiad gwelsom nad oedd unrhyw aelod o'r staff wedi cael ei oruchwylio'n ffurfiol na'i arfarnu ers 2019. Mae hyn yn faes i'w wella hefyd, ac er nad oes angen gweithredu ar unwaith, rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael llawer o gymorth gan yr unigolyn cyfrifol ac nad oedd unrhyw beth yn ormod o drafferth iddi. Dywedodd aelodau mwy newydd o'r staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol a'r tîm o staff wrth iddynt gwblhau eu cymhwyster gofal plant.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn rhoi proses hunanwerthuso a gwella ar waith yn y lleoliad. Mae'n llunio adroddiad ar ansawdd y gofal, sy'n briodol ac sy'n nodi cryfderau yn ogystal â meysydd i'w datblygu.

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n galed i feithrin partneriaethau â'r rhieni. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym eu bod yn hapus â'r gofal y mae eu plentyn yn ei gael. Gwnaethant ddweud wrthym fod y lleoliad yn rhan o'r gymuned ac fel teulu i'w plant. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn cael adroddiadau diwedd blwyddyn ar gyfnod eu plant yn y lleoliad a bod y staff yn rhoi gwybod iddynt am eu diwrnod wrth iddynt eu casglu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 25 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau y caiff risgiau diangen i iechyd a diogelwch y plant eu nodi a'u dileu, i'r graddau i'r eithaf. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd. | Newydd |
| 28 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod yr holl wiriadau addasrwydd sy'n ofynnol i'r staff a gyflogir wedi cael eu cynnal cyn iddynt gael eu penodi i'r gwasanaeth. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol hefyd sicrhau bod y staff yn iach i weithio'n uniongyrchol gyda phlant drwy ddatganiad iechyd. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Meithrin sgiliau annibyniaeth y plant yn ystod amser prydau bwyd. |
| Safon 22 – Yr amgylchedd | Sicrhau bod tymheredd yr adeilad yn cael ei fonitro a'i gofnodi'n ddyddiol. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau bod system ar waith i arsylwi a monitro datblygiad a chynnydd y plant ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Sicrhau bod y gwaith o gynllunio gweithgareddau'n cael ei gofnodi'n ffurfiol. |
| Safon 12 - Bwyd a diod | Cydgysylltu ag adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Caerdydd o ran paratoi bwyd, storio bwyd a phrosesau sgôr hylendid bwyd. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau y defnyddir byrddau arddangos dros dro er mwyn sicrhau y gellir gweld |

| |
|---|
| enghreifftiau o waith y plant a lluniau ohonynt yn chwarae |
| Sicrhau bod proses ar waith i gofnodi anafiadau sy'n bodoli eisoes pan fydd rhieni'n rhoi gwybod i'r staff am ddamweiniau neu anafiadau a gafwyd y tu allan i'r lleoliad. |
| Sefydlu system i werthuso damweiniau a digwyddiadau sy'n digwydd yn y lleoliad er mwyn nodi unrhyw batrymau. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/03/2024